Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019

Amser: 09.20 – 10.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5769

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Angela Burns AC Joyce Watson AC (yn lle Lynne Neagle AC) David Rees AC
Tystion:	Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru Sarah Tyler, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Sarah Beasley (Clerc) Iowri Jones (Dirprwy Glerc) Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Helen Mary Jones AC a Lynne Neagle AC. Dirprwyodd Joyce Watson AC ar ran Lynne Neagle AC.

2 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Trafodion Cyfnod 2

2.1 O dan reol sefydlog 17.24A, datganodd Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor, fuddiant fel meddyg teulu sydd wedi talu indemniad meddygol yn y gorffennol tra'n gweithio fel meddyg.

2.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, trafododd y Pwyllgor y gwelliannau a ganlyn i'r Bil, a'u gwaredu:

Gwelliant 1 (Angela Burns): cafodd y gwelliant hwn ei dynnu yn ôl, gyda chytundeb y Pwyllgor.

Gwelliant 2 (Angela Burns): cafodd y gwelliant hwn ei dynnu yn ôl, gyda chytundeb y Pwyllgor.

2.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd y bernir bod holl adrannau'r Bil a'r holl atodlenni iddo wedi cael eu cytuno. Yn sgil hynny, mae trafodion Cyfnod 2 wedi'u cwblhau.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Llythyr gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

3.2 Llythyr gan y Gymdeithas Gwarchod Meddygol ynghylch Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru)

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

3.3 Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y Cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trefn y drafodaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor drefn y drafodaeth ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), a chytunodd arni. Bydd trefn y drafodaeth yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we'r Bil.

6 Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru - Gwaith dilynol

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull gweithredu mewn perthynas â'r gwaith dilynol sydd i'w wneud yn y maes hwn, a chytunodd arno.

7 Blaenraglen Waith: Trafod y flaenraglen waith

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i flaenoriaethu dau ymchwiliad i'w hystyried - ymchwiliad i leoliadau cleifion mewnol CAMHS y tu allan i'r ardal, ac ymchwiliad i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar nifer o ddarnau byrrach eraill o waith. Caiff y manylion eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.